

Pwyllgor Cyllid

Rheoliadau Awdurdod Cyllid Cymru (Pwerau i Ymchwilio i Droseddau) 2018

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid o dan Reol Sefydlog 27.8A.

Cefndir a Diben

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cymhwyso darpariaethau amrywiol yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 a Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 i ymchwiliadau i droseddau a gynhelir gan Awdurdod Cyllid Cymru. Maent yn cynnwys cael mynediad i fangreoedd o dan amgylchiadau penodedig a chymryd eitemau perthnasol.
2. Ceir esboniadau o'r pwerau unigol yn y Nodyn Esboniadol a'r Memorandwm Esboniadol. Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad ysgrifenedig ar 21 Chwefror 2018 a gyfeiriodd at yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y pwerau a'r penderfyniadau a gymerwyd.

Gweithdrefn

3. Cadarnhaol

Craffu ar y rhinweddau

4. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi pwerau sylweddol i Awdurdod Cyllid Cymru. Rhoddwyd esboniad yn eu cylch nad yw'n ymddangos ei fod yn afresymol. Serch hynny, rydym am dynnu eich sylw at y Rheoliadau ar y sail eu bod o bwys cyfreithiol neu wleidyddol neu'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Amcanion polisi

Datganiad ar y bwriad polisi

5. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i graffu ar y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), rhoddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am y **bwriad polisi** ar gyfer y pwerau dirprwyedig o fewn y Bil.



6. Mae'r rheoliad a gyflwynwyd **yn cyd-fynd â** pholisiau cysylltiedig yn y datganiad.
7. Mae'n nodi bod Adran 183 o'r Bil Casglu a Rheoli Trethi (**Adran 185 o'r Ddeddf**) yn diwygio Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 i roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i gymhwyso darpariaethau amrywiol yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 i ymchwiliadau i droseddau a gynhelir gan Awdurdod Cyllid Cymru.
8. Mae Adran 183(2) (**Adran 185(2) o'r Ddeddf**) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i gymhwyso'r darpariaethau yn Rhan 2 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 i ymchwiliadau a gynhelir gan Awdurdod Cyllid Cymru, sy'n rhoi pwerau penodol i ymchwilwyr ymafael a chadw deunydd y deuir o hyd iddo yn ystod chwiliad.

Gwaith craffu gan y Pwyllgor Cyllid yng Nghyfnod 1

9. Yn ei dystiolaeth, **dywedodd Revenue Scotland** mai ei fan cychwyn mewn perthynas â phwerau ymchwilio a gorfodi oedd edrych ar y pwerau sydd gan Cyllid a Thollau EM. Dywedodd y sefydliad ei fod wedi ystyried, wrth benderfynu a ddylid eu mabwysiadu ai peidio, a oedd y pwerau yn angenrheidiol, yn briodol ac yn gymesur mewn perthynas â'r ddwy dreth ddatganoledig gyntaf.
10. Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd yn fodlon bod y pwerau yn y Bil yn dyblygu pwerau Cyllid a Thollau EM. Nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr:

“...the Bill seeks to replicate existing powers across England and Wales. So, we have no strong feeling in terms of additional powers and also there will be a bedding-in period, both in relation to these two new taxes, which will be following on very quickly now from this legislation, and also looking ahead.”

11. Cytunodd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) **fod y pwerau'n** dyblygu'r hyn a ddefnyddir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nododd y sefydliad y byddai Awdurdod Cyllid Cymru yn gorff newydd ac y byddai Llywodraeth Cymru, o bosibl, am adolygu perfformiad yr awdurdod pe bai diffygion o ran y pwerau ymchwilio.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Ymgynghoriad y Cynulliad



12. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

13. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn awgrymu, er ei bod yn bwysig i Awdurdod Cyllid Cymru gael y pwerau a gynigir, dylent lynu mor agos â phosibl wrth bwerau Cyllid a Thollau EM. Osgoi dryswch oedd y rheswm a roddwyd dro ar ôl tro am hyn.

Rheoliadau yn yr Alban

14. Nid oes rheoliadau cyfatebol, gan nad oes gan Revenue Scotland yr un pwerau â'r rhai sydd wedi'u cynnig gan Lywodraeth Cymru yn y tabl rheoliadau ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru.

Rheoliadau'r DU

15. Mae'r rheoliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru **yn gydnaws** â deddfwriaeth y DU.

16. Mae Gorchymyn Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (Cymhwyso i Refeniw a Thollau) 2015 (fel y'i diwygiwyd) yn cymhwyso darpariaethau yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol i Refeniw a Thollau, ac mae Atodlen 1 yn amlinellu'r darpariaethau hyn.

17. Mae Adran 67 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 yn cymhwyso Rhan 2 (pwerau ymafael) i swyddogion Refeniw a Thollau.

Ymateb y Llywodraeth

18. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r adroddiad ac yn cydnabod bod yr OS hwn yn cynnwys materion sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Safbwynt y Pwyllgor

19. Nododd y Pwyllgor y Rheoliadau.

